

Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2016

Rhif 418



Tudalen 12: Karen a Julie yn gwneud yn glir pwy maen nhw'n cefnogi!

tud 3

Beth Angell

tud 4

Opera yn y Pentre

tud 6

Rhamant y Mwynfeydd

tud 12

Zagreb, 1975

Byw Gyda'r Bomio

Pan ffrwydrodd y bomiau yng ngorsaf metro Maalbeek ym Mrwsel ar fore dydd Mawrth, 22 Mawrth, fe ddiolchodd Hedydd Phylip i'r nefoedd ei bod yng Nghaerdydd ar y pryd. Yr orsaf nesaf at un Maalbeek yw'r un lle mae fflat Hedydd ac fe ffoniodd yn syth i'w ffrindiau i wneud yn siwr eu bod nhw'n i gyd yn saff – ac roedden nhw, trwy lwc.

Bu dau ymosodiad arall ar Faes Awyr Brwsel yr un bore gan greu yr ymosodiad terfysgol gwaethaf yn hanes gwlad Belg.

“Fel un sy'n gweithio ym Mrwsel, rwy'n gyfarwydd iawn â'r maes awyr,” meddai Hedydd wrth Papur Pawb, “ond fel arfer rwy'n teithio i mewn ar yr Eurostar a rhaid i fi gyfadde 'mod i'n teimlo'n reit nerfus wrth ddal y trên i o Lundain yr wythnos hon.

“Mae gwlad Belg yn wlad fach ac does ganddi mo'r adnoddau i ddellio â therfysgaeth cystal â Ffrainc, er enghraifft. Mae'n nhw'n gwneud sioe o osod heddlu a milwyr ar gorneli'r strydoedd ond mae angen mwy na hynny. Problem arall yw bod y rhannau Mwslemaidd o Frwsel yn cael eu hanghofio ac yn gallu datblygu yn feithrinfa i derfysgwyr. Mae yna fwlch mawr yma rhwng y tlawd a'r cyfoethog.”

Pan ofynnodd Papur Pawb i Hedydd a fyddai'r ymosodiad yn gwneud gwahaniaeth iddi'n bersonol, dywedodd: “Na, dyw'r dewis o newid arferion yn sgil y bomio ddim yn codi. Dwi'n mwynhau fy ngwaith yn fawr. Er fy mod ymhell o Gymru, mae fy swydd yn ymwneud yn agos â gwleidyddiaeth Cymru.”

Mae Hedydd yn gweithio ym Mrwsel ers tair blynedd a bellach yn Bennaeth Staff ac Ymchwilydd i Jill Evans, a etholwyd yn Aelod Ewropeaidd dros Gymru gyfan ym Mai 2014. Graddiodd Hedydd yn y gyfraith a Ffrangeg cyn symud i Gaeredin i wneud gradd uwch



ar ddatganoli a chyfraith Ewropeaidd – y paratoad perffaith ar gyfer ei swydd.

“Pan ddes i gyntaf i Frwsel ro'n i'n rhannu fflat yn agos iawn at y Senedd, ond rwy wedi symud mas i fy fflat fy hun mewn ardal sydd â mwy o gymeriad lleol. Mae Brwsel yn ddinas braf ac rwy'n hoffi cwrdd â phobl o wahanol wledydd. Ond cofiwch fod y cwrw'n dwyllodrus o gryf yma!”

Mae Hedydd yn naturiol yn gobeithio mai “Ie” fydd y bleidlais yn y Refferendwm ym mis Mehefin, ond os aiff pethau o chwith, bydd ganddi ddwy flynedd eto cyn gorfod symud allan. Un ffordd neu'r llall, mae un peth yn siŵr: bydd gan Hedydd Phylip o Dal-y-bont yrfa ddisglair o'i blaen.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- ... a rhagor

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.cymru

Terfysgaeth? Na – rhywun sy'n dwyn y blodau wrth y cyfleusterau cyhoeddus!



Papur Pawb		
Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
GOHEBYDDION LLEOL		
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832592 832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
CYMDEITHAS PAPUR PAWB		
Cadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Pygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	
Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.		

Annwyl Olygydd,

Ar 30 Mawrth eleni fe ddaeth y set cyntaf o safonau'r Gymraeg yn weithredol. Y safonau hyn sy'n dweud beth ddylai sefydliadau ei wneud yn Gymraeg.

Mae'r safonau'n creu hawliau newydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Cynghorau sir, Llywodraeth Cymru a'r parciau cenedlaethol yw'r sefydliadau cyntaf i weithredu'r safonau. Dros amser fe fyddant yn cael eu cyflwyno i sefydliadau a sectorau eraill, mewn meysydd fel ieuchyd, addysg ôl-16, trafnidiaeth cyhoeddus, ynni, gwasanaethau post, tai cymdeithasol, telegyfathrebu a llawer mwy.

Mae safonau'n seiliedig ar gyfraith gwlad; ac mae dyletswydd ar sefydliadau i gydymffurfio â nhw. Dylent roi ffydd i chi y gallwch ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau sy'n gweithredu safonau. Os nad ydych wedi gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg boddhaol ganddynt, cysylltwch â mi i gwyno.

I ddysgu mwy am eich hawliau ewch i'r dudalen 'Hawliau i Ddefnyddio'r Gymraeg' ar wefan comisiynyddygyymraeg.cymru a dilyn a defnyddio #hawliau ar y rhwydweithiau cymdeithasol. Mae croeso i chi hefyd gysylltu â ni ar y ffôn neu'n ysgrifenedig (manylion islaw).

Os ydych yn ysgrifennydd neu'n drefnydd grŵp neu fudiad cymunedol ac yn dymuno fy mod i neu un o'm swyddogion yn dod i siarad am eich hawliau iaith, yna mae croeso mawr i chi gysylltu ac fe drefnwn ymweliad.

Yn gywir,

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad

5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT

post@comisiynyddygyymraeg.cymru / 0845 6033221

Annwyl Olygydd,

Diolch i olygydd y rhifyn diwethaf o Papur Pawb am roi darlun teg i ni o'r holl broblemau a fydd yn dod o godi cynifer â 22 o dai ar y tir a elwir 'Y Ddôl'.

Mae nifer yma yn sobor o uchel, yn arbennig os edrchwch chi ar y nifer o dai sydd ar werth yn y pentre rŵan. Dwi ddim yn cofio gweld y fath nifer o dai ar werth yma. O ble felly daw'r galw am 22 o dai ychwanegol?

O gofio bydd yn rhaid i bob tŷ gael gardd a garej a lle parcio a heolydd cyswllt, dwi'n dychymygu y bydd y stâd, os caiff ei godi, yn debyg iawn i'r rhai yna yn y Costa Brava, lle maen nhw'n dweud bod y tai mor agos, y gallwch weld beth mae eich cymydog yn bwyta i frecwast!

Gobeithio wir y bydd synnwyr cyffredin yn teyrnasu yn y diwedd, ac y rhoir sylw llawn i farn y Cyngor Cymuned.

Yn gywir,

Un o'r Pentre

Dyddiadur

EBRILL

9 Te Parti Calonnau Cymru

2.30 Llanfach, Taliesin

10 Bethel

Rehoboth 10 Bugail (C)

Eglwys Dewi Sant

11 Cymun Bendigaidd

Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Cymun Bendigaidd

12 Cymdeithas y Chwiorydd

Rehoboth Ymweld â Phlasty

Nanteos a the hufen

13 'Cadw'n ddiogel ar y we'

3.30-5.30 Siop Cynfelyn.

Hyfforddiant digidol gyda

Nigel Callaghan

16 Cyngerdd gyda Tudur Wyn,

Clive Edwards ac eraill

yng Ngwesty Llety Parc,

Aberystwyth. £10.

Elw i Calonnau Cymru

17 Bethel 10 Trefniant lleol

Rehoboth 10 Tegwyn Jones

Eglwys Dewi Sant

11 Cymun Bendigaidd

Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Hwyrdd Weddi

18 Merched y Wawr

Tal-y-bont a'r Cylch

21 Sefydliad y Merched

Tal-y-bont Hen ffyrdd

y Porthmyn yng Nghymru

(Michael Freeman)

Eglwys Dewi Sant

7 Gwasanaeth Hwyrdd

24 Bethel 10 Gweinidog (C)

Nasareth 5 Judith Morris

Rehoboth 5 Bugail

Eglwys Dewi Sant

11 Gwasanaeth Teuluol

26 Cymdeithas Treftadaeth

Llangynfelyn 'Rysetiau a

mwy o Archifau Ceredigion'

(Ania Skarzynska)

7.30 Llan Fach

MAI

1 Bethel Uno yn Nasareth

Nasareth 2 Bugail (C)

Rehoboth 5 Bugail (C)

Eglwys Dewi Sant

11 Gwasanaeth Boreol

Eglwys Sant Pedr, Elerch

2.30 Cymun Bendigaidd

3 Sefydliad y Merched

Taliesin

5 Eglwys Dewi Sant

7 Gwasanaeth Hwyrdd

8 Bethel 10 a 5.30

Y Gymanfa Ganu

Nasareth Y Gymanfa Ganu

Rehoboth Y Gymanfa Ganu

10 Bethel 5 Y Gweinidog

22 Clwb Nos Wener

Lansio CD Penillion i'r Leri,

y Llew Du, 8.00

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Robat ac Enid gyda Tanwen yn dylunio. Golygyddion mis Mai fydd Mair a Beryl, gyda Ceri yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 6 Mai, a bydd y papur ar werth ar 15 Mai.

Swydd

dros dro
yn ein swyddfa dderbyn

Cysylltwch â Garmon am sgwrs
ar 01970 832 304 neu ebostiwch
garmon@ylolfa.com

yl Lolfa
www.ylolf.com

YSGOL LLANGYNFELYN

Gydag Ysgol Llangynfelyn yn cau yn yr haf, mae'n fwriad gan *Bapur Pawb* i gynnwys atodiad arbennig i nodi'r achlysur yn rhifyn Mehefin o'r papur. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen cymorth chwi'r darllenwyr. Hoffem dderbyn atgofion y rhai fu'n mynychu'r ysgol fel disgyblion neu athrawon. Dylai unrhyw gyfraniad fod dim mwy na 250 gair os gwelwch yn dda, er mwyn i ni gynnwys atgofion o bob cyfnod. Hoffem hefyd dderbyn lluniau perthnasol, yn arbennig o'r cyfnod cyn yr 1970au. Anfonwch (erbyn 30 Ebrill) y testun a'r deunydd at golygydd@papurpawb.com neu ffoniwch y golygydd cyffredinol ar 832560 pe bai angen casglu'r deunydd.

Bryisia Wella

Dymunwn yn dda i Gwyndaf Evans o Maesyderi sydd wedi dod adref wedi triniaeth drom yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Mae'n ddrwg gennym glywed fod Bill Gardener, Y Pandy, Tal-y-bont yn Ysbyty Bronglais. Pob dymuniad da iddo am wellhad buan.

Da clywed fod Kathleen Richards, Y Bryn, Tal-y-bont wedi gadael Ysbyty Tregaron. Mae hi bellach yng Nghartref Tregerddan, ac yn gwella'n dda. Brysiwch yn ôl atom Kathleen.

Mae Tegwen Jones Glasgoed, Tal-y-bont, yn Hafan y Waun ar hyn o bryd. Dymunwn bob cysur a gofal i chi yno.

Felly hefyd Carol Evans, Ty'n Rhelyg, sydd yn Ysbyty Bronglais. Da clywed eich bod eisoes yn teimlo'n well, Carol.

Cydymdeimlad

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Susan a Huw Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl, a gweddill y teulu ar golli tad Susan yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â Karen Evans, Nant-llain, ar golli ei mam yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Eifion a Tara, Cilgant y Coed, Taliesin, ar enedigaeth eu merch fach, Miri Lois, ym mis Mawrth.

Hoci Rhyngwladol

Llongyfarchiadau i Jane Bailey, Troedrhwiweiri, Bont-goch, a fu'n cynrychioli Cymru yn ddiweddar mewn twrnamaint hoci yn Awstralia.

Pobl a Phethe



Iestyn, Siôn, Gerwyn a Beth Angell

Beth Angell yn y Llew Gwyn

Roedd yn braf cael bod yng nghwmni athrawon a rhieni presennol a gorffennol Ysgol Tal-y-bont pan gawsom noson i ymlacio wrth wrando ar y comediwr Beth Angell (sy'n hanu o Gorris Uchaf – fel yr atgoffodd ni) yn mynd drwy'i phethau. Golwg ddoniol ac onest ar faterion pob dydd dynion a merched oedd ganddi a chyfleu'r digwyddiadau cyfarwydd yma yn ddigri a ffraeth.

Roedd rhan o'r noson wedi ei neilltuo i gêm banel tebyg i Room 101 gyda Beth fel cyflwynydd. Cawsom lond bol o chwerthin wrth glywed tri thad, Gerwyn Jones, Iestyn Davies a Siôn Pennant yn cael eu harwain i daflu beth bynnag a fynnent i Ebargofiant. Fe gewch chi bendroni dros ba un ohonynt fydd'n gwaredu: dillad o Next; Dafydd Iwan; rhosyn coch Lloegr; ffa pob, cartwnau Pokomon a sawl gwrthrych ag arferiad arall. Diolch byth na wnaeth un ohonynt enwi eu plant na'r athrawon sy'n eu dysgu. Mae athrawon Ysgol Tal-y-bont rhy werthfawr!

Medi James

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Am
GOFBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffld
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Croeso

Croeso i'r pentre i Prys ac Eleri, sydd wedi symud i Tan-y-bryn, Tal-y-bont.

Y Proff yn y Pyb

Cafwyd noson anghyffredin o ddiddorol yn Y Llew Gwyn ar nos Fercher, 16 Mawrth pan ddaeth Yr Athro Bryn Hubbard, Cyfarwyddwr Canolfan Rhewlifeg Prifysgol Aberystwyth draw i drafod ei ymchwil mewn rhai o amgylcheddau harddaf ac oeraf y byd. Soniodd am yr heriau o weithio ar fasau ia mwyaf ac anghysbell y Ddaear, ac am effaith y dirywiad yn y pegynnau iâ ar yr hinsawdd. Mae'r Athro Hubbard wedi ennill Medal y Pegynnau ac yr oedd yn amlwg ei fod yn feistr ar ei bwnc. Trefnwyd y noson gan Grŵp Llifogydd Tal-y-bont.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi

MYNACH

Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

BWYD DA ...
CWMNI DA ...

yBlac
TALYBONT

BWYTY A BAR

CINIO 12.00 - 2.30 SWPER NOS 6.00 - 9.00

CINIO SUL 12.00 - 3.00

AM FWY O FANYLION, BWYDLENNI A CHYNGION
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk

Gwelwch chi'n fuan... Cofion Siôn, Catrin a'r tîm

01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES
STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Bocses a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDSODDWR
IN PEOPLE | Mewn Pobl

Opera yn y Neuadd Goffa



Nos Wener, Mawrth 18ed cafwyd profiad newydd a gwahanol ym mhentref Tal-y-bont. Daeth gwahoddiad oddi wrth Grwp Lliff Cymuned Tal-y-bont i ni dreulio noson yn eu cwmni yn y Neuadd Goffa. Roeddynt wedi trefnu fod Cwmni Opera Aber yn rhoi gwledd o gerddoriaeth i ni gyda chantorion amatur a phroffesiynol yn canu darnau o nifer o operau cofiadwy. Roedd y gwahoddiad yn ein hannog i wisgo'n addas i'r achlysur, ac er fod ambell un wedi anghofio'i ddici bô a'i dycsedo roedd llawer wedi ymdrechu i edrych yn "glam", a'r Neuadd Goffa hefyd wedi ei haddurno'n bwrpasol i'r

noson. Gallem fod mewn Tŷ Opera go iawn a hynny heb fynd gam o'r pentref.

Joanne Julier oedd ynn cyflwyno'r cantorion a chanwyd pob unawd ganddynt yn yr iaith wreiddiol. Cawsom La Traviata, Don Giovanni, Hywel a Blodwen, Così Fan Turtte ac yn y blaen. Roedd Jenny Fothergill yn un o'r unawdwyr a chanodd ddarn o Die Zauberflöte, hefyd Niam O'Donnell a ganodd Le Nozze o Di Figaro, y ddwy ohonynt o Dal-y-bont.

Roedd gwestai arbennig sef y delynores Nest Jenkins hefyd a chysylltiadau cryf â Thalybont er yn byw yn Lledrod ar hyn o bryd. Cawsom berfformiadau gwefreiddiol ganddi ar y delyn, gyda detholiad allan o Eugene Onegin gan Tschaikowski yn uchafbwynt. Mae hi wedi ennill gwobrau cenedlaethol pwysig am ei pherfformiadau, er enghraifft y Rhuban Glas offerynnol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, 2013, ac mae hi ar ei ffordd i dreulio cyfnod ym Mhatagonia yn fuan.

Fel mewn opera go iawn, roedd toriad yn y canol a chyfle i gymdeithasu gydag ychydig win a chanapés.

Glan Davies oedd arweinydd y noson ac esboniodd i ni fod yr elw yn mynd at Calonnau Cymru, a rhoddodd beth o hanes yr elusen a diolchodd i bawb a fu'n cyfrannu at y noson wych hon gan ein harwain at y diwedd glo gyda datganiad ysbrydoledig o Hen Wlad Fy Nhadau yn ddigon i godi'r tô!



Niam O'Donnell



Jenny Fothergill



Pedwarawd yn canu Mozart

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00

(Un cwrw: £7.95 Dau gwrw £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245


garethwhitelion@outlook.com



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

argraffu da am bris da



Y Lolfa holwch Paul am bris ar **paul@yloffa.com**
01970 832 304 **www.yloffa.com**

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Mawrth.

1. Lladrad Planhigion o'r Ardd Fach

Adroddodd y Clerc, ar ran Paul Jenkins, fod rhywun/rhywrai wedi tynnu o leiaf tri phlanhigyn cyfan o'r ardd fach yn y mis diwethaf. Nododd y Cynghorydd Megan Mai ei bod hi hefyd wedi sylwi fod twll wedi ymddangos haf diwethaf yn yr ardd. Os oes unrhyw wybodaeth gydag unrhyw un ynglŷn â'r mater, cysylltwch â'r clerch: cyngorcam@gmail.com / 07886 367027.

2. Ffens Maes-y-Deri

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu unwaith eto gyda Tai Ceredigion i adrodd fod bwlch o hyd yn y ffens ar gyrion Maes y Deri ger y Cae Bach (rhwyng y giât â'r goeden dderw). Adroddodd y Clerc ei bod yn aros am wybodaeth bellach wrthynt ynglŷn â'r mater.

3. Baw Cŵn

Trafodwyd y broblem barhaol o'faw cŵn yn Nhal-y-bont. Cynghorodd Adran Iechyd Amgylcheddol, Cyngor Sir Ceredigion i unigolion gysylltu gyda hwy i adrodd unrhyw broblemau. Nododd yr adran bod adroddiadau yn gryfach gyda lluniau o'r unigolion yn troseddu ac enw'r troseddwr. Ei manylion cyswllt yw: 01545 572105 / envhealth@ceredigion.gov.uk

4. Ymddiswyddiadau

Gyda thristwch, adroddodd y Cadeirydd David Evans i'r

Cyngor dderbyn llythron ymddiswyddo dau Gynghorydd y Cyngor: Eric Roberts a Gerwyn Jones. Estynnodd David ei ddiolch i'r ddau am eu hamser a'u gydweithrediad dros y blynyddoedd, a dymunodd y gorau iddynt. Gan hyn, mae dwy sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Cytunwyd i'r Clerc adrodd yr ymddiswyddiadau i'r Cyngor Sir er mwyn cychwyn y broses o lenwi'r seddi. Pan ddaw cyfarwyddid o'r Cyngor Sir, fe fydd wybodaeth bellach ar y seddi gwag ar hysbysfyddau Tal-y-bont a Bont-goch.

5. Gohebiaeth – Sefydliad Aren Cymru: Taith dros Fywyd

Derbyniwyd pecyn wybodaeth ynglŷn ag ymgyrch 'Taith dros Fywyd' Sefydliad Aren Cymru. Mae'r elusen yn hybu cymunedau i drefnu teithiau cerdded nawdd ar y 24 Ebrill i godi arian ar gyfer rheini sy'n dioddef o glefydau'r arenau. Os oes diddordeb gydag unrhyw un i drefnu taith gerdded, cysylltwch â'i swyddfa: 02920 343940 / lowri@kidneywales.cymru. Mae gwybodaeth hefyd ar ei wefan <http://kidneywales.cymru/>

6. Gohebiaeth – Cyngor Sir Ceredigion: Gwersi Cyfrifiaduron

Derbyniwyd hysbys fod gwersi cyfrifiaduron yn cychwyn yn Llyfrgell Aberaeron, ar y 27 o Ebrill. Cynhelir y gwersi ar ddydd Mercher, rhwng 14:00-16:00, Mercher, 2-4yp, i bobl di-brofiadol neu fwy profiadol. I archebu lle, cysylltwch â Carol Williams: 01239 615777 / carol.williams@agcymruceredigion.org.uk

Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch Dilyn Glyndŵr



Falma Jones, Ann Jenkins a Margaret Jones yn mwynhau paned yn Caffi Alys.

Nos Lun Mawrth 21ain aeth aelodau'r gangen i Senedd-dy Owain Glyndŵr ym Machynlleth. Croesawodd Aileen Williams ni i gyd a chofiodd am ein haelodau Kathleen Richards, Tegwen Jones a Mai Leeding – y dair yn anhwylyd.

Yno yn ein disgwyl roedd Mr Alan Wynne Jones, Cadeirydd Pwyllgor Elusen Owain Glyndŵr, ac fe gafwyd hanes y Senedd-dy a hanes Owain Glyndŵr a sut y bu iddo yn 1404 lwyddo i uno Cymru fel un gwlad. Hefyd cafwyd hanes David Davies Llandinam a'i ŵyr David Davies a'r gwaith a wnaethant yn y porthladdoedd a'r rheilffyrdd yn y de. Diweddodd gan sôn am Gwilym Davies, un arall o'r ardal. Cyn mynd oddi yno dangosodd y murluniau hardd oedd ar y waliau. Diolchwyd iddo am sgwrs ddiddorol iawn gan Betty Jenkins.

Croesawodd Aileen ni eto i Siop Alys drws nesa. Tri cwplw o'r ardal a sefydlodd y fenter yn 2014 er mwyn sicrhau presenoldeb y Gymraeg yn y Ganolfan o ddydd i ddydd, a sefydlu busnes ar y safle trwy werthu nwyddau Cymraeg a Thŷ Te lle gellir cael amrywiaeth o brydau bwyd. Cawl oedd ein dewis ni gyda bara a chaws, ac i ddilyn cacen a phaned o de neu goffi, ac yna cyfle i brynu cardiau neu nwyddau o'n dewis.

Diolchodd Betty unwaith eto i Gail a'i ffrindie am y croeso cynnes.

Sefydliad y Merched, Tal-y-bont – Raffi

Diolch hwy'r rhai yn Nhalybont a gefnogodd y casgliad i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub. Cyfanswm y casgliad yn y pentref oedd £126. Cyfraniad at y £2,348 a gasglwyd yn ardal Borth. *Janet Morgan ac Eirlys Jones*

Artist Medrus

Dydd Iau 17 Mawrth siaradwraig wâdd Sefydliad y Merched oedd yr artist medrus Juliet Regan o Daliesin. Swynodd bawb gyda stori ei bywyd fel artist gan oleuo'i darlith gydag enhreiffiau trawiadol o'i gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys darluniau botanegol ar gyfer y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol. Gwelodd yr aelodau ei chardiau sy'n brintiau o ddyfrluniau gwreiddiol a werthir fel arfer drwy'r Siop Gymunedol yn Nhre'r-ddôl. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion lleol megis Gwarchodfa Natur Cwm Clettwr a'r tegeirianau yn Ynyslas. Rydym yn ffodus i gael arlunydd mor dalentog yn ein hardal.

Protest Palmant Glandyfi

Ar fore Sadwrn 30 Ebrill, cynhelir protest am 10.30 gan ddechrau yn y gilfan yng Nglandyfi. Mae hi'n ddwy flynedd ers ini gael yr un ddiwethaf a nid oes cynnydd ar y sefyllfa. Fel mae y ffordd yn prysuro, mae ein cymuned yn cael ei anghofio gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd. Bydd Mark Williams yno yn ogystal â'r BBC. Dewch a'ch cŵn, pramiau a beiciau. Bydd siaced lachar o help.

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont


01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Rhamant y Mwynfeydd

Cafodd llawer o ddarlennwyr Papur Pawb bleser o glywed Hefin Llwyd (un o sylfaenwyr y papur) ar raglen Dei Tomos yn ddiweddar yn trafod hanes a thraddodiadau mwynloddio yn y bryniau i'r dwyrain o Dal-y-bont. Cytunodd Hefin i roi ei sylwadau difyr ar bapur i ni gael eu mwynhau mewn hamdden.

Yn ystod haf crasboeth 1976 darganfuwyd olion caer fechan Rufeinig yn Erglodd (Aurglawdd>Eurglawdd>Erglodd), rhwng Tal-y-bont a Thaliesin. Yn 2005 bu archaeolegwyr yn cloddio ychydig yn is i lawr na'r gaer, ar ymyl Cors Fochno, gan ddarganfod hen safle toddi mwynau, hefyd o gyfnod y Rhufeiniaid. Yn Nhaliesin, hanner milltir o'r gaer bu gweithio mawr ar un adeg ar waith mwyn a elwid yn "Pwll y Romans."

Roedd hyn yn cadarnhau cred yr hen fwynwyr craff, ynghyd ag archaeolegwyr diwydiannol megis David Bick (1929-2006), bod cloddio cynnar iawn am fwynau wedi digwydd yma yng ngogledd Ceredigion, a bod rhai o'r hen fwyngloddiau hyd yn oed yn deillio o gyfnod Oes Gynnar yr Efydd. Y trueni yw bod llawer iawn o dystiolaeth yr olion cynnar hyn wedi eu dinistrio gan gloddio diweddarach.



Gwaith toddi Rhufeinig

Monopoli Coron Lloegr

Yn Esgair-hir, ar ucheldir Pumlumon ceir olion hen siafftau sy'n dyddio'n ôl i tua 1689. Mae lle pwysig iawn i'r siafftau hyn yn hanes cyfreithiol mwynloddio, oherwydd fe lwyddodd Syr Carbery Pryse, Gogerddan, y tirfeddiannwr i herio a gwyrddroi monopoli Coron Lloegr ar ei hawl i fwynau aur ac arian drwy wledydd Prydain.

Daeth y gweithfeydd yn Esgair-hir yn enwog fel y Potosi Cymreig, ar ôl y gweithfeydd arian cyfoethog ym Molifia, De America. Ychydig iawn o fwyngloddiau oedd yn darparu tai yn arbennig ar gyfer eu gweithwyr, ar wahân i ambell faracs mewn ardal anghysbell. Roedd baracs felly yn Esgair-hir ac yno y byddai'r mwynwyr yn lletya yn ystod yr wythnos gan ddychwelyd i'w cartrefi ar nos Wener neu ddydd Sadwrn tan fore dydd Llun.



Y Siafft Las yn Esgair-hir

Gwlana

Roedd hen draddodiad ers talwm o wlana ar y mynydd-dir. Âi gwragedd a merched o bentrefi llawr gwlad i grwydro'r mynydd-dir i gasglu gwlan oedd wedi ei adael ar ôl ar y perthi a'r cloddiau, i'w troi'n ddillad a sanau gwlan, neu pan fyddai'r teulu'n cynyddu ac angen gwely newydd. Aent yn griw o dair neu bedair gyda'i gilydd. Hel y gwlan drwy'r dydd a chael cysgu'r nos ym maracs Esgair-hir, yng ngwlâu'r mwynwyr oedd yn gweithio'r sifft nos. Mae'n debyg mai merched y Borth oedd y rhai mwyafrif anystywllt, yn ôl pob sôn!

Âi eraill â'r gwlan i ffatrioedd Tal-y-bont i wneud dillad i'r gwyr neu i wneud edafedd at wau sanau i'r teulu. Cedwid digon o wlanan goch i leinio cotiau a gwasgodau pe digwyddai i ddynd ddiodeff o riwmatig. Roedd galw mawr am y gwlanenni hyn i leinio dillad y mwynwyr oedd yn gorfod diodeff oerni a lleithder dan ddacar.

Rhwng 1883 a 1893 cynhaliwyd ysgol ddyddiol ym maracs Esgair-hir. Roedd lluestai'r ucheldir a ffermydd a thyddynnod y cymoedd gwledig yn magu teuluoedd niferus, cymaint â deg neu ddwsin o blant mewn sawl cartref. Felly, roedd galw mawr am ysgol o'r fath. Cynhelid eisteddfod yn flynyddol yn y baracs hefyd, ym mis Chwefror fel arfer.

Anfonwyd peiriannydd mwynloddio o'r enw Capten Richard Griffiths o'r hen sir Fflint i oruchwyllo gweithfeydd Esgair-hir tua 1835. Ei weithred gyntaf oedd adeiladu ffordd newydd o Dal-y-bont i Esgair-hir oedd yn ddigon llydan i gario wagenni gydag olwynion, i fynw Cwm Ceulan, pellter o saith milltir. Er mai chwe cheiniog y dydd oedd cyflog arferol gweithiwr yng Ngheredigion yr adeg hynny, penderfynodd y Capten Richard Griffiths dalu swllt y dydd i bob gweithiwr hyd nes y cwblheid y ffordd newydd, a gwnaed hynny mewn dim o dro. Ar ochr y ffordd hon, gyferbyn â hen gapel Seion Ceulan, mae ffynnon y mwynwyr. Hon fyddai'n diwallu syched y mwynwyr ar eu siwrneiau i fynw'r cwm i'r gweithfeydd mwyn ar y mynydd-dir ar fore dydd Llun, neu wrth ddychwelyd adre ar nos Wener neu ddydd Sadwrn.

Y coblynnau bach

Fe gollodd y Parch. Evan Isaac (1865-1938), Taliesin, awdur "Coelion Cymru" a llyfrau eraill, ei dad pan oedd yn blentyn naw oed, a gorfu iddo adael ysgol Llangynfelyn i fynd i weithio yng ngwaith mwyn Esgair-hir. Hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg credai mwynwyr ym mhob gwlad drwy'r byd yn gryf ym modolaeth y coblynnau bach neu ysbrydion y creigiau, neu'r "cnocwyr" fel y gelwid nhw. Credai rhai mwynwyr eu bod yno i'w helpu i ganfod gwythiennau cyfoethog o fetelau, eraill yn credu eu bod yno i greu helynt a thrafferthion i'r gweithwyr tra wrth eu gwaith.

Yn "Coelion Cymru" dywed Evan Isaac hyn: "Clywais ganwaith pan oeddwn yn hogyn [yn 1875] eu curo dyfal yng ngwaith Esgair-hir. Ni wyddwn y pryd hwnnw achos na diben y curo, ac efallai fod yr hen fwynwyr yn rhy garedig a meddylgar i egluro i lanc rhag peri dychryn iddo." Ysgrifennodd Lewis Morris (1701-1765) o Fôn lawer am y coblynnau bach anweledig, yn ei lythyrau at ei frodyr William a Richard, pan oedd yn oruchwyliwr mwynau'r brenin yng Ngheredigion yn ystod y ddeunawfed ganrif.

Teuluoedd

Yn aml byddai sawl cenhedlaeth o'u un teulu yn fwynwyr. Teulu felly oedd yr Edwardiaid, Arfryn, Tal-y-bont. Gadawodd Dafydd Edwards (1873-1941), Arfryn, [ef oedd tad y diweddar David John Edwards, neu Defi John y Glo a'r ddiweddar Mrs Phyllis Williams] yr ysgol yn dair ar ddeg oed [tua 1886] i fynd i weithio yng ngwaith mwyn y Camdwr-mawr ar ucheldir Pumlumon. Byddai'n cychwyn o Dal-y-bont am bedwar o'r gloch ar fore dydd Llun gan gyrraedd y Camdwr tua saith, a dechrau ar ei waith am wyth; hanner awr i ginio, a gorffen am hanner awr wedi pump. Arhosai ym maracs gwaith y Sbaen (oedd wrth ymyl capel Tabor-y-mynydd) ar hyd yr wythnos, a

cherdded adre ar nos Wener.

Byddai gan bob mwynwr ei dorth o fara, hanner pwys o fenyn, 2 owns o de, ac ychydig o facwn, neu sgadan neu benwaig coch i bara am wythnos. Gyda'r nos yn yr haf, byddent yn pysgota nentydd y mynydd, a'r rheini'n llawn o bysgod. Ar nosweithiau hirlwm y gaeaf byddent yn chwarae cardiau, neu'n cyfansoddi penillion a cherddi, neu'n ymarfer caneuon a darnau adrodd ar gyfer eisteddfodau a chyfarfodydd cystadleuol.



Simon Hughes gyda'i arddangosfa flynyddol ar fwyngloddio yn Sioe Tal-y-bont

Swllyt y dydd

Cyflog hogyn oedd swllyt y dydd [yn 1886], a'r dynion yn derbyn o hanner coron i dri swllyt y dydd. Oes fer oedd i weithiwr mwyn dan ddaear gan fod y llwch yn mynd i'r frest, mwg y tanio'n aros o hyd, a'r lle mor fwl weithiau nes bod y gannwyll yn diffodd ac yn gwrthod cynnau o gwbl. Fel arfer merched a phlant oedd yn gweithio ar wyneb y gwaith yn trin a thrafod y cerrig, yn golchi'r mwynau a'u symud o un lle i'r llall. Gwaith caled iawn oedd hwnnw hefyd. Yn ddiweddarach bu Dafydd Edwards yn fwynwr yn Rwsia, Mecsico, Arisona a Cholorado. Oherwydd eu harbenigrwydd fel mwynwyr a daearegwyr penigamp bu nifer fawr o fwynwyr gogledd Ceredigion yn gweithio mewn rhannau eraill o'r byd. Aeth John Robert (Bob) Edwards, (brawd Dafydd), John Gwawrddu James a nifer dda o fwynwyr eraill o ardal Tal-y-bont i weithfeydd arian yn Frias, Colombia, De America. Roedd cymuned gref o Gymry yno o 1884 hyd 1924, yn gweithio ac yn goruchwyllo'r gweithfeydd arian. Cynhaliant gyngherddau ac eisteddfodau yn union fel pe baent gartref yng ngogledd Ceredigion.

O 1875 ymlaen bu dirwasgiad mawr yn y byd diwydiannol yng ngogledd Ceredigion, ac erbyn y 1920au roedd y rhan fwyaf o'r gweithfeydd mwyn wedi cau, yn bennaf oherwydd mewnfario mwynau rhatach o wledydd tramor, a phrisiau'r mwyn wedi gostwng i'r nesaf peth i ddim. Cafodd rhai o'r mwynwyr waith yn y ffatrioedd gwlan yn Nhal-y-bont, tra'r ymfudodd nifer sylweddol o rai eraill i'r pyllau glo yng nghymoedd de Cymru, a mannau eraill.

Hefin Llwyd

Cymdeithas y Chwiorydd

Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi ar brynhawn Mawrth, 8 Mawrth, yn festri capel Rehoboth, Taliesin, ac estynnwyd croeso i Marianne Jones Powell, Llandre, a fu'n ein diddanu drwy ganu rhai caneuon clasurol yn ogystal ag alawon Cymreig i gyfeiliant Elenid Thomas. Roedd pawb wedi mwynhau'r datganiadau'n fawr iawn, a diolchwyd yn gynnes i'r ddwy am brynhawn hyfryd. Yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jenkins ac Ann Jones.

Sefydliad y Merched Taliesin

Teithiodd llond bws i Lanelli a chael diwrnod chofiadwy yn ymweld yn y bore a Tŷ Llanelli sy wedi ei adnewyddu yn chwaethus iawn. 'Roedd y cyflwyniad o hanes y dre a'r tŷ gan y staff yn ardechog. ymlaen wedyn am wledd amser cinio yng Ngwesty' r Strade a thipyn o siopa yng nganolfan Trostre cyn troi am adre.

Cawsom noson hynod ddiddorol fis Chwefror – cyflwynodd Chris Gilbert luniau, gwisgoedd, tlysau a bwydydd Priodas Indiaidd, sef hanes priodas ei mab i Naila yng Ngaerdydd.

Yng ngyfarfod mis Mawrth dathlwyd Gŵyl Dewi drwy fwynhau cwmni merched Tal-y-bont a swper o gawl a tharten afal wedi ei goginio gan Meinir a Lynda. Ein gwestai oedd Rowland Davies, Dolclettwr, Cyflwynodd i ni hanes hynod ddiddorol am ei gartref, sy'n deillio nôl i'r 14 ganrif, ynghyd â hanes yr ardal ac enwau y caeau sy ar y fferm.

Vanessa Kniverton rhoddodd noson o Aromatherapy yng Ngyfarfod fis Ebrill – mae Vanessa yn arbenigwraig ar y pwnc ac yn hyfforddwraig galwedigaethol yn adran gwallt a harddwch Hyfforddiant Ceredigion yn Llanbadarn. Chafodd yr aelodau gyfle i dreialu yr holl adnoddau a mwynhau y noson yn dysgu am y grefft. Eleni eto mae nifer ohonom yn paratoi am gystadleuaeth Rali Wanwyn y Sir sy'n cael ei gynnal yn Ciliau Aeron ar y 14 Ebrill. Pob lwc i aelodau Taliesin.

Digwyddiadau Siop Cynfelyn: Ebrill 2016

Dydd Mercher, 13 Ebrill
15:30 – 17:30

"Cadw'n Ddiogel ar y We:

Sut i Osgoi'r Corynod yn y Gwifrau"

Hyfforddiant digidol gyda Nigel Callaghan yn Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl. Hyfforddiant trwy'r Saesneg, ond gellir ofyn cwestiynnau yn y Gymraeg.

Dydd Sul, 17 Ebrill
07:00 – 10:00

Cerdded Cletwr

"Dawn Chorus in Cwm Clettwr Woods"

Taith gerdded gyda Caroline de Carle. £3 y person. Rhaid arbed lle. Cysylltwch â Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl. Ymddiheuriadau – dim cŵn, na phlant o dan 10 mlwydd.

Dydd Sadwrn, 23 Ebrill
15:30 – 17:00

Clwb Ffilmiau Cydch Chwarae Taliesin...

Penguins of Madagascar

Ffilmiau i deuluoedd yn Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl. Rhoddion tuag at Gylch Chwarae Taliesin.

Dydd Sul, 24 Ebrill
10:30 – 13:00

Cerdded Cletwr

"Spring Stroll: Photography Skills"

Taith gerdded ffotograffiaeth gyda Jean Napier. £10 y person. Rhaid arbed lle. Cysylltwch â Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl.

Dydd Iau, 28 Ebrill
19:30

Noson Ffilm Gymraeg: Branwen

Rhan o raglen nosweithiau ffilm Gymraeg

Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl [pob yn ail mis].

Is-deitlau Saesneg. Rhoddion. Lluniaeth ar gael.

Hefyd:

Sesiwn Amser Stori:

Dydd Iau, 14 & 28 Ebrill – 14:00 – 14:45, Siop Cynfelyn

Cyfle i'r plant gael stori, ac i chi edrych ar lyfrau Cymraeg

iddynt. Cyfle hefyd i gael cyngor ar ddarllen yn Gymraeg

i'ch plant, a dod i wybod am y llyfrau sydd ar gael.

Cynhelir y sesiynau pob yn ail-ddydd Iau. Am fwy o

wybodaeth, cysylltwch â Medi James medijames22@gmail.com

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

LLYFRAU

Cymdeithas Treftadaeth Tre Taliesin

Mawrth 1af yw diwrnod ein nawddsant a'r mis delfrydol i gyhoeddi llyfr newydd ar Dewi Sant. Daeth Gerald Morgan yr awdur i Gymdeithas Treftadaeth Tre Taliesin i drafod ei lyfr diweddaraf Ar Drywydd Dewi Sant.



Gerald Morgan

Prin yw'r wybodaeth ysgrifenedig am Dewi, cyfaddefodd yr awdur hynny ar cychwyn, ond gyda'i ddiddordeb yn hanes cynnar Cymru a thrwy bori hwnt ac yma daeth llawer mwy o hanes Dewi i'r wyneb. Yn ôl pob tebyg ganwyd Dewi yn Henfynyw a threuliodd y rhan fwyaf o'i weinidogaeth yn Llanddewibrefi. Pwysleiswyd taw Cardi oedd Dewi a'r prawf o hynny yw bod nifer sylweddol o eglwysi yn y cyffiniau wedi eu cysegru iddo – nid felly yn Sir Benfro heblaw am yr Eglwys Gadeiriol enwog yn Nhŷ Ddewi. Rhaid diolch i Rhygyfarch a'i Fuchedd Dewi am ei ddrychafu i fod yn Esgob a'i leoli yno.

Mae eglwysi di-ri yn enw Dewi ar hyd a lled y byd gan gynnwys manau annisgwyl fel Papua Gini Newydd ond maent yn bennaf yn y gwledydd ble bu Jac yr Undeb yn cyhwan! Pob dydd o'r flwyddyn mae'r Eglwys Gadeiriol yn Nhŷ Ddewi yn gweddïo dros un rhywle yn y byd, ond mor niferus yw'r eglwysi does dim digon o ddyddiau yn y flwyddyn i gynnwys pob un a gysegrwyd iddo!

Cwmpodd Gerald mewn cariad hefo'r eglwys yn Dirinon, Llydaw. Yno mae eglwys i Non, fe'i cydnabyddir hi fel ei fam, a cherflun o Dewi ei hun. Ym Mhrydain dinistriodd y Protestaniaid holl ddelweddau, cerfluniau a phaentiadau yr eglwys gynnar felly hwn yn Dirinon yw'r unig un 'gwreiddiol' i oroesi. Yn y gwahanol gwledydd ceir lluniau amrywiol o Dewi, ambell dro fel marchog rhyfelgar, ond i ninnau y sant tawel, pwylllog, duwiol sydd hyd heddiw yn ein hannog i 'wneud y pethau bach', dyna yw'n nawddsant ni.

Mae'r gyfrol newydd "Ar Drywydd Dewi Sant" yn llawn o ffeithiau diddorol, mae'n waith trylwyr iawn ac yn gymorth inni ddod i nabod yn well ein nawddsant annwyl. Diolch i Gerald Morgan am ei lyfr gwerthfawr a diolch iddo am ddod i'n goleuo yn y Gymdeithas.

Rhys Huws

Hunangofiant Dr Wynne Davies

Er ei fod wedi byw yn ne Cymru am drigain mlynedd, mae Dr Wynne Davies, sy'n enedigol o Dal-y-bont, yn adnabyddus iawn yn yr ardal hon ac mae ganddo nifer o berthnasau yma. Mae'n enwog drwy Gymru benbaladr a thu hwnt am ei arbenigedd mewn cobiau a merlod Cymreig. Bellach, ac yntau dros ei bedwar ugain, mae wedi mynd ati i lunio hunangofiant a gyhoeddwyd y ddiweddar gan Wasg Gomer.

Mae *From the Horse's Mouth* nid yn unig o ddiddordeb i'r sawl sy'n ymddiddori mewn cobiau Cymreig ond hefyd i lawer sy'n mwynhau darllen am hanes yr ardal hon yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Ganed Wynne Davies yn Ceulan Stores (Central Stores wedi hynny), Tal-y-bont, yn 1932, yn fab i Evan Samuel ("Evie") a Janet Mary Davies. Roedd ei dad yn un o Gymry Llundain ond roedd ei deulu yn hanu o'r ardal hon. Ymddiddorai mewn ceffylau ac etifeddodd Wynne yr un diddordeb. Enillodd ferlen gyntaf ei dad, *Seren Ceulan*, sawl gwobr mewn sioeau ledled Cymru a bu'n feirniad prysur mewn sioeau. Pan oedd yn blentyn yn yr 1930au cofia Wynne hen ferlen arall, Polly, a borai ar Gae'r Efail lle mae Garej Davmor erbyn hyn.

Mae Wynne yn sôn dipyn am ei lencyndod yn Nhal-y-bont ac am fywyd cymdeithasol bywiog y pentref yn y dyddiau hynny. Roedd yn aelod o griw noson lawen Capel Bethel a fu'n teithio'r wlad yn diddanu mewn cyngherddau. Cyfeirir at nifer o gymeriadau lleol fel

Lizzie Post, y Parch Fred Jones a J M Jenkins (er bod y dyddiadau yma yn anghywir - bu farw J M Jenkins yn 1978), heb sôn am y merlod fel *Ceulan Silverleaf* a *Dinarth What Ho*. Cyfeiria hefyd at y dwymyn deffoid a laddodd pedwar yn ardal Aberystwyth yn 1946. Roedd yntau'n sâl iawn am gyfnod, gan dreulio amser yn ysbty heintiau Tanybwllch [fel mae'n digwydd roedd fy mam yno'r un pryd]. Ceir hanes ei gyfnod yn ysgol ramadeg Ardwyn a'r coleg yn Aberystwyth, lle yr enillodd radd mewn cemeg, ac am ei gyfnod yn ne Cymru lle y mae'n parhau i fyw. Mae'n nodweddiadol iddo newid enw'r fferm a brynodd ym Meisgyn o Hillside Farm i Ceulan Farm.

Mae'r gyfrol yn llawn lluniau o ddiddordeb lleol ac o gobiau y bu'n gysylltiedig â hwy dros y blynyddoedd.

GJ



Un o'r lluniau yn y llyfr: Crw Noson Lawen capel Bethel tua 1950 gydag Wynne Davies ar y chwith eithaf yn y rhes gefn. Mae 'na nifer o wynebâu cyfarwydd yma. Beth am anfon yr enwau i gyd i'r papur er mwyn i ni eu cynnwys yn y rhifyn nesaf?

Y Gair Olaf



Fel pawb sy'n treulio gormod o amser ar y cyfrifiadur, mae gen i rai safleoedd lle dwi'n galw heibio iddynt bron bob sesiwn. Un ohonynt yw safle *G.B. National Grid Status*, www.gridwatch.templar.co.uk safle sy'n arddangos, mewn ffordd weledol, statws grid trydan Prydain.

Ar hyn o bryd, yn hwyr y nos, mae Prydain yn defnyddio 33GW o drydan, sy'n dod o orsafoedd nwy (46%), niwclear (22%), glo (10%), gwynt (5%), biomas (5%), *interconnector* Ffrainc (5%), *interconnector* yr Iseldiroedd (2%) a hydro (1%).

Mae glo a gwynt yn cyfnewid safle trwy'r amser. Ar hyn o bryd, yn y distawrwydd ar ôl Storm Katie, mae gorsafoedd trydan glo yn creu ddwywaith y trydan sy'n dod o felinau gwynt. Ar adegau eraill, mae gwynt yn gyrru glo allan o'r farchnad.

Ond, fel mae'r safle yn esbonio, nid hwn yw'r darlun cyflawn. Mae'r grid cenedlaethol yn mesur cynnyrch ffermydd gwynt yn unig, megis Mynydd Gorddu. Mae tyrbinau annibynnol, fel tyrbîn fferm Maesnewydd efallai, ddim yn cyfrannu at y ffigyrau y mae'r grid yn eu cyhoeddi. Mae'r safle yn awgrymu bod tyrbîn annibynnol yn cynhyrchu tua 30% o drydan ar ben beth mai'r ffermydd gwynt yn eu cynhyrchu.

Efallai'r mai'r elfen fwyaf diddorol yw ffurf y galw am drydan yn ystod y dydd. Yn lle galw isel rhwng tua 23.00 a 06.00, gyda brig esmwyth o alw ychwanegol trwy'r dydd a'r nosweithiau, fel y byddech chi efallai yn ei ddisgwyl, mae'r galw yn edrych fel rhes o ddannedd wedi'u torri. Y rheswm am hyn yw'r paneli solar sydd wedi'u gosod ar docau cartrefi teuluol neu mewn "ffermydd". Nid yw'r rhain wedi'u mesur ond maent yn cymryd cnoad mawr allan o'r galw bob dydd, rhwng 8 o' gloch y bore ac 8 o' gloch yn hwyr, adeg hwn o'r flwyddyn.

Steve Benham

Ysgol Llangynfelyn

Parêd Gŵyl Dewi

Aeth criw o blant yr ysgol i Aberystwyth i gymryd rhan yn y Parêd Gŵyl Dewi. Cariodd y plant faner fawr yr ysgol ac arfbeisiau mawr newydd roeddynt wedi gynllunio.



Pythefnos Masnach Deg

I ddathlu diwedd Pythefnos Masnach Deg cafwyd parti Masnach Deg yn yr ysgol. Daeth pob plentyn ag eitem o fwyd Masnach Deg i'r ysgol i rannu. Mwynhaodd y plant siocled, ffrwythau, bisgedi a chnau. Roedd hi'n ben-blwydd Lola'r mochyn cwta hefyd a chafwyd cacen pen-blwydd Masnach Deg iddi.

Pawb yn Wyddonydd

Aeth dosbarth Cyfnod Allweddol 2 i'r Brifysgol yn Aberystwyth i gymryd rhan mewn bore o weithgareddau yn ystod Wythnos Gwyddoniaeth Brydeinig. Cafodd y plant gyfle i wneud arbrofion, dal anifeiliaid amrywiol, arsylwi deunyddiau a bod yn wyddonwyr.



Ymweliad Cwm Rheidol

Gweithgaredd arall Wythnos Gwyddoniaeth Brydeinig oedd ymweliad i Orsaf Bŵer Cwm Rheidol. Aeth Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 i'r Ganolfan Ymwelwyr yn gyntaf i gael dau weithdy gyda Technquest – yr un cyntaf am drydan a'r ail un oedd cynllunio a gwneud pont. Ar ôl cinio, cerddodd y plant i fyny i'r Orsaf Bŵer i gael taith dywys a dysgu ychydig am hanes yr orsaf.



Gemau Buarth

Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen draw i Ysgol Craig yr Wylfa am brynghawn hwyliog yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Dysgodd Mair gemau newydd i'r plant allan yn yr heulwen gyda phlant ysgolion Craig yr Wylfa a Thal-y-bont. Diolchwn yn fawr iawn i Mair ac rwy'n siŵr bydd y plant yn cofio'r gemau ac yn eu chwarae nôl yn yr ysgol.

Castell Aberystwyth

Thema Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 cyn y Pasg oedd 'Cestyll a Dreigiau'. Felly aeth y plant i Amgueddfa Ceredigion i gael sesiwn ar hanes Castell Aberystwyth cyn cerdded i'r castell. Dysgon nhw lawer iawn am dywysogion Cymru a rhan bwysig y castell yn hanes Cymru.



Profiad y Pasg

Aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i Aberystwyth i weld stori'r Pasg wedi'i bortreadu yng nghapeli'r dref. Dechreuwyd yng Nghapel Morfa cyn symud ymlaen i gapeli Stryd y Popry. Roedd aelodau o'r capeli wedi'u gwisgo fyny fel cymeriadau allan o'r Beibl ac yn actio gwahanol rannau o stori'r Pasg. Diolchwn yn fawr iawn i 'Menter Gobaith' am drefnu'r gweithgaredd llwyddiannus iawn yma ac am yr wyau Pasg a'r cylchgronau i'r plant.

Bags2school

Bydd ein casgliad olaf o ddillad Bags2school yn mynd o'r ysgol ar fore Dydd Llun Ebrill 18fed. Byddwn yn casglu dillad ac esgidiau, bagiau, teis, beltiau, sgarffiau, hetiau a theganau meddal. Yn anffodus, nid ydym yn medru cymryd dillad gwely, blancedi, llenni, clustogau na thywelion. Mae croeso i chi adael eich cyfraniadau yn yr ysgol mewn bagiau plastig/sachau ail-gylchu.

Bistro Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2016
7.30, nos Lun, 25 Ebrill
Loretta Minghella, Prif Weithredwr
Cymorth Cristnogol yn annerch ar y testun "Is Christianity Good News for the Poor?". Mynediad am ddim.

EISTEDDFOD CALAN MAI
4.30 ymlaen, dydd Mercher, 27 Ebrill
Eisteddfod i bobl ardal Aberystwyth.
Mynediad: £3. Cofrestru ar gyfer cystadlaethau llwyfan ac anfon gwaith cartref erbyn 15 Ebrill.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Ysgol Tal-y-bont

Caru Ceredigion

Roedd hi'n hyfryd cael croesawu Gerwyn Jones Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol gyda Chyngor Sir Ceredigion Buom yn dathlu dydd ein nawddsant yn yr ysgol eleni eto drwy wisgo yn ein gwisgoedd traddodiadol a choginio cacennau cri. Buom hefyd yn rhan o'r Parêd blynyddol yn Aberystwyth.

Mae'n draddodiad bellach i ddathlu Diwrnod y Llyfr drwy wisgo fel cymeriad o lyfr. Gallwch chi ddyfalu cymeriadau gan ba awdur oedd y thema eleni? Clw - mae'n ganrif ers iddo gael ei eni yng Nghaerdydd.



Crewyr Cerddoriaeth

Hyfryd oedd cael croesawu Mr Geoff Davies nôl i'r ysgol unwaith eto. Y tro hwn, bu'n cynnal gweithdy gyda dosbarth y Cyfnod Sylfaen. Roedd hon yn sioe drawiadol ac yn gyfle gwyb i gael profiad ymarferol a chynhyrfus o sut y mae creu cerddoriaeth.

Bardd Plant Cymru

Un o uchafbwyntiau mis diwethaf oedd croesawu Anni Llŷn, Bardd Plant Cymru, i gynnal gweithdy gyda phlant blwyddyn 5 a 6. Roedd y plant wrth eu bodd yn chwarae gyda geiriau ac yn creu barddoniaeth. Fe gafon nhw hwyl hefyd yn taflu 'peli eira' at ei gilydd i helpu gyda'r gwaith. Diolch yn fawr am weithdy bywiog a difyr.



Newid Staff

Yn anffodus ar ôl cyfnod byr iawn, daeth hi'n amser i ni ffarwelio gyda Miss Kayleigh Swanson. Hoffwn i ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith dros y misoedd diwethaf a dymuniadau gorau iddi ar gyfer y dyfodol.



Ysgol Iach

Mae mis Mawrth eto wedi bod yn fis prysur o ran chwaraeon. Bu'r timoedd pêl-droed a pêl rwyd yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill o ardal Aberystwyth yn eu cystadleuthau blynyddol. Llwyddodd y tîm pêl rwyd i chwarae'n dda yn eu cystadleuaeth nhw, gan ddiolch i Miss Claire am hyfforddi. Er i'r bechgyn fod yn ddi-guro yn erbyn Ysgol Cwmpadarn ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth, yn anffodus doedden nhw ddim wedi sgorio digon i symud ymlaen i'r rowndiau terfynol.

Roedd y tîm rygbi hefyd wedi bod yn brysur iawn yn ystod mis Mawrth mewn pencampwriaeth 'tag' yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Wedi sicrhau eu lle yn y rowndiau terfynol, chwaraewyd 4 gêm arall ac ar ddiwedd y dydd â phawb wedi blino'n lân, daeth y bechgyn yn ail gan chwarae llawer o rygbi deniadol. Da iawn chi fechgyn.

Tîm Pêl-droed



Tîm Pêl Rwyd



Tîm Rygbi



Profiad y Pasg

Cafodd plant hynaf yr ysgol gyfle arbennig i ymweld â chapeli tref Aberystwyth fel rhan o ddiwyddiad 'Profiad y Pasg'. Ynghanol yr holl farchnata, y cwningod a'r cywion, y syniad oedd darganfod hanes y Pasg fel sydd yn y Beibl. Menter Gobaith oedd yn trefnu'r gweithgaredd a hoffwn ddiolch yn fawr iddynt am gael cyfle i fod yn rhan o'r gweithgaredd gwerthfawr yma.

Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd

Llongyfarchiadau i Miriam Davies ar ei llwyddiant yn dod yn ail am yr unawd a thrydydd am lefaru unigol ym Mhontrhydfendigaid yn ystod y mis. Pob hwyl iddi wrth gystadlu gydag Adran Tref Aberystwyth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Fflint.



Siaradwyr Cymraeg

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am gael eu gwobrwyo fel siaradwyr Cymraeg yr wythnos yn ystod y mis: Joel, Gethin, Evie, Megan, Ellie a Maisie.

Strafagansa Cwm Rheidol

Mae ysgolion cylch Aberystwyth yn cael modd i fyw tua'r adeg yma o'r flwyddyn wrth gael eu gwahodd i Gwm Rheidol i fwynhau gweithdai arbennig sy'n hyrwyddo dealltwriaeth y plant o Wyddoniaeth. Eleni cafodd plant Ysgol Tal-y-bont gyfle i adeiladu pontydd, creu larymau a chael cwis rhifedd. Roedd hi'n gyfle da i ddysgu mwy am yr orsaf drydan ond efallai mai'r uchafbwynt iddyn nhw oedd bwydo'r brithyll!

Noson Gomedï

Hoffai Cymdeithas Rieni ac Athrawon Ysgol Tal-y-bont ddiolch yn fawr i bawb am gefnogi'r Noson Stand-Yp Cymraeg a gynhaliwyd yn y Llew Gwyn yn ystod y mis. Roedd hi'n noson ddoniol iawn a phawb yn eu dyblau'n chwerrthin ar gyfraniadau'r panelwyr difyr ac yn arbennig ar straeon a jôcs Beth Angell. Dwi'n siŵr y bydd croeso iddi ddod eto i Dal-y-bont yn y dyfodol.



Gweithdy Ruth Jên



Enillwyr a Chapteiniaid yr Eisteddfod



Enillwyr Cylch Meithrin, Eisteddfod Ysgol Tal-y-bont

EISTEDDFOD YR YSGOL – canlyniadau

Canu Cylch Meithrin

1. Rowan
2. Martha
3. Lela

Llefaru Dosbarth Derbyn

1. Hedydd (L)
2. Shae (C)
3. Maisie (C)

Canu Dosbarth Derbyn

1. Hedydd (L)
2. Shae (C)
3. Swyn (C)

Llefaru Blwyddyn 1

1. Ela (C)
2. Kelsey (C)
3. Rhodri (C) / Bledwyn (L)

Canu Blwyddyn 1

1. Kelsey (L)
2. Ela (C)
3. Rhodri (C)

Llefaru Blwyddyn 2

1. Elen (L)
2. Evie (C)
3. Tyler (C)

Canu Blwyddyn 2

1. Evie (C)
2. Elen (L)
3. Grace (L)

Llefaru Blwyddyn 3

1. Elen (L)
2. Caoimhe (C) / Celsea (C)
3. Carys (C) / Ryan (C)

Canu Blwyddyn 3

1. Glain (C)
2. Carys (C)
3. Caoimhe (C)

Llefaru Blwyddyn 4

1. Miriam (L)
2. Efa (C)
3. Ellie (L) / Sean (L)

Canu Blwyddyn 4

1. Miriam (L)
2. Efa (C)
3. Sean (L) / Ellie (L)

Llefaru Blwyddyn 5

1. Chloe (L)
2. Emily (L)
3. Tomos (L) / Leon (L)

Canu Blwyddyn 5

1. Thérèse (L)
2. Chloe (L)
3. Emily (L)

Llefaru Blwyddyn 6

1. Oisín (C)
2. Megan (L)
3. Angharad (C)

Canu Blwyddyn 6

1. Oisín (C)
2. Becca (C)
3. Steffan (L)

Offerynnol Cyfnod Sylfaen

1. Evie (C)
2. Grace (L)

Llinynnol CA2

1. Oisín (C)
2. Angharad (C)
3. Caoimhe C / Miriam (L)

Chwythbrennau CA2

1. Thérèse (L)
2. Glain (C)
3. Chloe (L)

Pres CA2

1. Megan (L)

Piano CA2

1. Efa (C)
2. Thérèse (L)
3. Catrin (L)

Côr

1. Leri
2. Ceulan

Cerdd y Gadair

1. Oisín (C)
2. Catrin (L)
3. Megan (L) / Becca (C)

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 3

1. Glain (C)
2. Elen (L)
3. Carys (C)

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 4

1. Miriam (L)
2. Efa (C)
3. Iestyn (C)

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 5

1. Thérèse (L)
2. Catrin (L)
3. Brandan (C)

Llenyddiaeth Gymraeg Blwyddyn 6

1. Megan (L)
2. Oisín (C)
3. Ynyr (L)

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 3

1. Elen (L)
2. Gethnin (C)
3. Glain (C)

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 4

1. Zak (C)
2. Efa (C)
3. Sean (L)

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 5

1. Catrin (L)
2. Grace (C)
3. Chloe (L)

Llenyddiaeth Saesneg Blwyddyn 6

1. Megan (L)
2. Oisín (C)
3. Becca (C)

Celfwaith Cyfrifiadurol Dosbarth Derbyn

1. Maisie (C)
2. Hedydd (L)
3. Shae (C)

Llawysgrifen Blwyddyn 1

1. Ela (C)
2. Kelsey (C)
3. Aishah (C)

Llawysgrifen Blwyddyn 2

1. Elen (L)
2. Evie (C)
3. Grace (L)

Llawysgrifen Blwyddyn 3

1. Elen (L)
2. Caoimhe (C)
3. Glain (C)

Llawysgrifen Blwyddyn 4

1. Efa (C)
2. Zak (C)
3. Miriam (L)

Llawysgrifen Blwyddyn 5

1. Grace (C)
2. Thérèse (L)
3. Brandan (C)

Llawysgrifen Blwyddyn 6

1. Oisín (C)
2. Angharad (C)
3. Megan (L)

Celf Dosbarth Derbyn

1. Hedydd (L)
2. Swyn (C)
3. Maisie (C)

Celf Blwyddyn 1

1. Maya (C)
2. Kelsey (C)
3. Osian (L)

Celf Blwyddyn 2

1. Evie (C)
2. Tyler (C)
3. Clarice (C)

Celf Blwyddyn 3

1. Glain (C)
2. Elen (L)
3. Rhoswen (L) / Gethin (C)

Celf Blwyddyn 4

1. Efa (C)
2. Iestyn (C)
3. Sean (L)

Celf Blwyddyn 5

1. Thérèse (L)
2. Leon (L)
3. Catrin (L)

Celf Blwyddyn 6

1. Megan (L)
2. Becca (C)
3. Steffan (L)

Enillwyr:

Tlws Llenyddiaeth – Megan

Tlws Celf a Llawysgrifen Catrin Maesmeillion – Efa a Megan

Tlws Llefaru Mair Nutting – Miriam

Cwpan Canu J D Jones – Oisín

Cwpan Offerynnol J D Jones – Oisín

Cwpan Anwylyd Evans am y marciau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen – Evie

Tarian Geoff a Bethan Davies am y perfformiad gorau yn y Cyfnod Sylfaen – Evie


Tarian Dylan a Dwynwen Morgan am y marciau uchaf yn yr Eisteddfod – Ceulan Capteiniaid:

Ceulan – Angharad, Elinor, Oisín

Leri – Gwenllian, Megan, Ynyr

CHWARAEON

Llongyfarchiadau i Dylan Lewis, Tre'r-ddôl gynt, ar ennill y Ras Gŵyl Ddewi eleni, sef ras 10 cilomedr rhwng Llanddewi Brefi a Thregaron. Mae Dylan wedi cael cryn lwyddiant yn rhedeg gyda Chlwb Rhedeg Sarn Helen yn ystod y misoedd diwethaf ac mae'n amlwg nad oes angen y teiars teuluol arno er mwyn symud yn chwim!



Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys:

cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



Dysgu
Bro
CEREDIGION
Community
Learning

01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Ffrainc 2016? Nage – Zagreb 1975!

Yn y cyffro o weld Cymru'n mynd trwodd i rowndiau terfynol Cwpan Ewrop ym Mehefin a Gorffennaf eleni, mae'n hawdd anghofio bod Cymru wedi mynd trwodd o'r blaen i rowndiau terfynol y Gwpan Ewropeaidd yn 1975 – gya chefnogaeth frwd gan deulu o Maesyderi!

Fe aeth Gwyndaf a'i ferched draw i Iwgoslafia gefnogi Cymru. Wedi dal bws mini i Lundain, buont mor lwcus, o eistedd nesaf at Terry Yorath a Brian Flynn yn yr awyren (gw. y lluniau). Buont hefyd yn rhannu'r un gwesty â'r tîm a chael cwmni Dave Roberts, Malcolm Page ac eraill. Mae un o'r lluniau yn dangos y merched yn dangos eu hochr i *commissionaire* y gwesty.

Mae gan Gwyndaf lu o straeon difyr am yr amser da a gafodd yn Zagreb. Bu allan tan bedwar y bore un noson ond penderfynodd *Papur Pawb* beidio gofyn am fanylion pellach.

Bydd Gwyndaf Evans a'i ferched Julie a Karen yn ymddangos ar y rhaglen *Football and Flares* sydd i'w ddarlledu ar BBC 1 yn fuan. Fel y gwelwch o'r llun a gyhoeddwyd ym mhapur Zagreb, mae Gwyndaf yn gwneud model perffaith gyda'i drowsus *flares* ffasiynol, a'i ferched hefyd yn edrych yn wych.

Ond er gwaethaf eu brwdfrydedd, colli a wnaeth Cymru o 2-0 yn erbyn Iwgoslafia – ond mae'r Ddraig Goch yn dal i chwifio yng nghalon ac yng ngardd Gwyndaf, ac mae'n gobeithio y caiff Cymru fwy o lwc yn Ffrainc. Ymlaen, Cymru!



Gwyndaf a'r merched – llun a gyhoeddwyd ym mhapur Zagreb



John Mahoney – trendi iawn



gyda Terry Yorath



Julie gyda Brian Flynn



Julie a Karen gyda Rod Thomas